Cenn@d

RHAGFYR 24 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 252




# Gweddïau Nadolig gan Gymorth Cristnogol

Dyma ddetholiad o weddïau o ddeunydd Nadolig Cymorth Cristnogol ar gyfer eleni. Gellir cael mynediad i'r holl adnoddau sydd ar gael ar eu gwefan.




Dihangodd Chance o wrthdaro arfog yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo, gan gydio yn ei baban newydd-anedig wrth i fomiau ddisgyn. Y Nadolig hwn, gallai eich eglwys ariannu llochesi brys a dillad gwely i deuluoedd sy'n dianc rhag trais.

### Ymatebion agoriadol

(yn seiliedig ar Eseia 9)

Canys bachgen a aned i ni.
**Sut byddwn ni'n ei groesawu?**

Un sy'n cael ei alw'n Arweinydd Bendigedig,
Duw Cadarn, Tad Bythol, Tywysog Tangnefedd.
**Sut byddwn ni'n ei groesawu?**

Mab a roddwyd i ni.
Bydd yn gyfiawn a theg.
**Sut byddwn ni'n ei groesawu?**

Rydyn ni'n gweld ei wyneb yn ein cymydog.
**Sut byddwn ni'n ei groesawu?**

### Gweddi ar gyfer yr Adfent a'r Nadolig

Tywysog Tangnefedd,
doedd gennyt ddim lle diogel i orffwys pan oeddet ti'n fabi.
Gweddïwn heddiw dros bob plentyn sy'n cael ei orfodi i ffoi rhag trais.
Rydyn ni'n dod â theuluoedd a chymunedau sy'n dioddef ansefydlogrwydd ac ofn ger dy fron.
Yn ystod y tymor hwn o ddisgwyliadau gobeithiol,
gweddïwn dros y rhai sydd ddim yn gwybod beth a ddaw yfory.
Heria ni, Arglwydd, i fyw yn ôl dy alwad i geisio byw mewn heddwch.
Rho derfyn ar yr holl wrthdaro a'n hysbrydoli i weithredu gyda chyfiawnder a chariad.
Amen.

### Gweddi ar gyfer gwasanaeth Nadolig – y geni

Dduw cariadus, wrth i ni ddod at ein gilydd i wrando ar stori
genedigaeth Iesu Grist, dy Fab, diolchwn am lawenydd
a chyffro'r Nadolig.
Gweddïwn dros rieni, gofalwyr a phlant ym mhobman,
yn enwedig, gweddïwn dros y rhai nad oes ganddynt le diogel i aros.
Gofynnwn i ti helpu'r plant hynny nad oes ganddynt,
fel y baban Iesu, wely na chrud heno.
Dangos i ni beth allwn ni ei wneud i newid ein byd,
fel bod pob plentyn yn rhydd i chwarae, gorffwys,
tyfu a ffynnu.
Gofynnwn hyn yn enw Iesu, Amen.

Nadolig Lleuwen Steffan
Tudalen 2

Llun lliwio 'Heddwch i'r byd'
Tudalen 3

'Canys ganwyd i chi heddiw Geidwad yn Ninas Dafydd ...'
Tudalen 4

# Nadolig Lleuwen Steffan



### Sut ydych hi'n hoffi treulio'ch dydd Nadolig?

Fel arfer, mor syml a chartrefol â phosib. Amser teuluol ydi'r Nadolig i ni, a'r un drefn a defod yn digwydd fwy neu lai bob blwyddyn ers pan oedd y plant yn fach. Yma yn Llydaw, mae'n arferol i bobl gael eu pryd Nadolig a'u hanrhegion ar noswyl Nadolig yn hytrach nag ar ddydd Nadolig. Ond gan ein bod ni'n deulu lobsgows o Gymru a Llydaw rydym yn dueddol o gymysgu'r traddodiadau i'n siwtio ni. Dipyn o fwyd môr ar noswyl Nadolig felly, a daw eu tad a'u brawd i'n tŷ ni o noswyl Nadolig ymlaen. Rydym yn cael pryd mwy traddodiadol Cymreig y diwrnod canlynol, nid gyda thwrci ond gyda rhywbeth llysieuol.

Mae diwrnod Dolig yn dechrau gyda'r plant yn deffro'n llawer rhy gynnar a gofyn 'Gawn ni fynd i lawr grisia rwan?' A finna'n deud, ''Im eto!' tan imi roi fy nghaniatâd, tua 6yb! 'Dan ni'n agor ein hanrhegion i gyfeiliant carolau a chaneuon Nadolig ar hen recordiau finyl, a dw i'n eu hannog i agor eu hanrhegion yn arafach. Ar noswyl Nadolig bob blwyddyn, dw i'n poeni bod Siôn Corn heb gael digon iddyn nhw ac y byddan nhw'n siomedig. Ond tydyn nhw byth yn siomedig gyda'u hanrhegion, a dw i byth yn cofio hynny. Maen nhw wastad yn hapus ac yn ddiolchgar ar fore Dolig a finna'n teimlo'n ffodus iawn i fedru cael anrhegion i fy mhlant.



### Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?

Cwrs cyntaf: salad gydag afocado ac olew sesame, hadau, halen a phupur a digon o nionyn. Dw i'n hoff iawn o nionyn amrwd, ac ma'n dda iawn i'r llais!

Ail gwrs: llwyth o wahanol lysiau o bob math (yn enwedig pannas wedi eu rhostio!) efo cnau rhost a'r cyfan wedi eu socian mewn grefi llysieuol.

Trydydd cwrs: cacen Dolig. Fy hoff ran ydi'r marsipan.

### Beth yw'r anrheg Nadolig gorau gawsoch chi erioed?

Dw i'n cofio sawl Nadolig hapus yn Rhiwlas efo fy rhieni a fy mrawd a fy chwaer. Roedd fy mam a fy nhad wastad yn mynd i ymdrech i wneud popeth yn hudol i ni, blant. Roedd yn adeg mor hyfryd o'r flwyddyn, a'r dirgelwch yn llenwi ein dychymyg a'n hewyllys da.

Mae gen i un atgof o anrheg arbennig iawn. Un flwyddyn, ces i fwrdd du er mwyn imi allu chwarae bod yn athrawes. Pan rwygais y papur lapio oddi ar y bwrdd du, roedd neges mewn sialc arno. Neges gan y dyn ei hun – Siôn Corn! Rhaid fy mod i wedi bod yn ifanc iawn oherwydd dw i'n cofio trio darllen y neges, un llythyren ar y tro, yn araf bach, 'Mae rhywbeth yn yr ardd.'

Rhedais allan ar unwaith, a dyna lle roedd siglen yn yr ardd! Wna' i fyth anghofio'r cyffro a deimlais! Dim ond mewn parc chwarae roeddwn wedi gweld siglen o'r blaen! Am deimlad braf oedd cael un i mi fy hun! Roeddwn yn teimlo'n lwcus ac arbennig. Yr oll roeddwn i am ei wneud ar y dydd Nadolig hwnnw oedd siglo ar y siglen. Dw i'n cofio Mam yn trio fy nghael i ddod 'nôl i'r tŷ. Mae'n siŵr fy mod i'n oer iawn ar ôl awr neu ddwy ar y siglen a hithau yng nghanol y gaeaf a finna yn fy mhyjamas!

### Pa un yw'ch hoff garol Nadolig a pham?

Rwy'n hoff iawn o garolau plygain a llawer o garolau Cymraeg, ac anodd iawn dewis un – ond mae 'Hwiangerdd Mair' yn anghyffredin o swynol, yn fy marn i. Mae'r alaw yn anghyffredin a geiriau hyfryd Nantlais yn gwneud inni edrych ar stori'n geni o safbwynt Mair y fam. Er ei bod yn gwasgu '[g]waredwr y byd at ei bron', yn y pen draw ei babi bach sydd yna. Ac mae'r 'cwsg, cwsg, f'anwylyd bach' yn dod â stori'r geni yn fyw iawn ac yn agosach at ein profiadau personol o famau'n gofalu a chanu hwiangerddi.

Mae'r garol fodern 'Alaw Mair' gan Cefin Roberts a Delwyn Siôn yn dilyn yr un trywydd, a dw i'n meddwl bod y garol hon wedi cael ei hysbrydoli gan 'Hwiangerdd Mair'. Mae'n cychwyn gyda'r geiriau 'Sgwn i pa gân oedd Mair yn suo i'r baban gwyn pan oedd o'n crio?' cyn mynd mlaen at 'sut oedd mesur y loes wrth weled y baban ar y groes?' Dirdynnol.

(O Bapur Elim, Heol Awst a'r Priordy, gyda chaniatâd)

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*

**Dydd Nadolig, 25 Rhagfyr, am 1.00yp – Gŵyl y Geni (ailddarllediad)**

Nia Roberts sy'n arwain dathliadau'r Nadolig o Eglwys Sant Awstin, Penarth. Ymhlith y gwesteion mae'r unawdwyr Rhodri Prys Jones, Lili Mohammad a Sian Meinir, a chawn berfformiadau gan Gôr Merched Plastaf a Chôr Tadau Trisant. Mae'r carolau cynulleidfaol o dan arweiniad Eilir Owen Griffiths.

BBC radio cymru

**Oedfa'r Dolig**

***Dydd Nadolig, 25 Rhagfyr, am 5:30yb a 12:00yp***

Oedfa dan arweiniad Gareth Ioan ac aelodau eglwysi Blaen-y-coed a Bryn Iwan, Sir Gaerfyrddin. Bydd yn dadansoddi pam mae straeon y geni yn cynnwys bugeiliaid, angylion a doethion, ac yn holi am le, llawenydd a'r her i bawb ohonom yn y stori.

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*

**Sul, 28 Rhagfyr, am 7:45yh – Uchafbwyntiau**

Rhodri Gomer sy'n rhannu gwledd o ganu mawl a straeon ysbrydoledig wrth i ni fwynhau rhai o uchafbwyntiau'r gyfres. Bydd teulu Gwynfor Evans yn dathlu ei gyfraniad unigryw, a chlywn gan Vex Vaughan am gefnogaeth elusen Gisda i'r ifanc. A bydd yna berfformiad disglair gan Gôr Glanaethwy.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 28 Rhagfyr, am 7:30yb a 4:30yp**

Plygain Penrhyn-coch yng nghwmni Ceris Gruffudd

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 28 Rhagfyr, am 12:00yp**

Oedfa dan arweiniad Sara Roberts, Bethesda




Ledled y byd, mae gwrthdaro wedi lladd miliynau o bobl ac wedi dadleoli llawer mwy. Mae rhyfel wedi gweld plant yn colli eu rhieni. Teuluoedd yn mynd heb fwyd. Cymunedau wedi'u trawmateiddio.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid mewn parthau gwrthdaro i ddarparu cymorth dyngarol hanfodol i bobl sydd wedi colli popeth, gan eu cefnogi yn eu galar a'u hofn.

Wrth i chi liwio eich colomen, gweddïwch am ddiwedd ar wrthdaro. Am gysur ysbrydol ac ymarferol i'r rhai sy'n galaru. Yna, gweithredwch a chodwch arian hanfodol ar gyfer gwaith Cymorth Cristnogol. Dangoswch eich colomen a dangoswch eich ymrwymiad i adeiladu heddwch parhaol.

Ewch i **caid.org.uk/Christmas2025**
i drefnu eich digwyddiad codi arian.

Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o Gynghrair ACT. Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851 Rhif Cwmni 5171525 Mae enw a logo Cymorth Cristnogol yn nodau masnach Cymorth Cristnogol.
© Cymorth Cristnogol Hydref 2025 J537603

# ‘Canys ganwyd i chi heddiw Geidwad yn Ninas Dafydd …’ ‘Ganwyd Iesu …’

Yn ddiweddar, ysgrifennodd **Manon George** am ei hoff emyn ym mhapur misol Capel y Tabernacl, Caerdydd, gan ddewis y garol ‘Ganwyd Iesu’ o waith ei thaid, sef W. R. P. George, Cricieth. Dyma grynodeb o’r erthygl.

Ysgrifennwyd y garol yn ystod y 1950au a’i chanu am y tro cyntaf mewn oedfaon Nadolig yng Nghapel Berea, Cricieth, lle roedd fy nhaid yn aelod. I Gapel Berea yr âi Nain a Taid Gwaun Ganol (rhieni fy mam) hefyd wedi iddynt symud i Gricieth o Ruthun ganol yr wythdegau.

Tri phennill oedd i’r garol yn wreiddiol, sef penillion 1, 3 a 4. Mae’n debyg bod Taid yn meddwl bod angen pennill ychwanegol i gyfleu’r ‘llawenydd mawr dros ben’ y cyfeirir ato yn Mathew 2:10. Dwi’n hoffi meddwl bod llunio’r ail bennill efallai’n cydfynd â’i lawenydd mawr o ddod yn daid am y tro cyntaf, gan mai yn ei gyfrol *Dringo’r Ysgol*, a gyhoeddwyd yn 1989, y ceir y garol yn ei ffurf bresennol, cyfrol a gyflwynwyd ‘I’m gwraig Greta – “Nain” bellach’.

Yn ystod fy magwraeth, roedd cyfnod y Nadolig yn bwysig yng nghartref Nain a Taid yng Ngarthcelyn, Cricieth. Un o Nuremberg, yr Almaen, oedd Nain, lleoliad un o farchnadoedd Nadolig hynaf ac enwocaf y byd. Mae gen i atgofion arbennig iawn o ymweld â’r Christkindlesmarkt, a dw i’n gobeithio y bydd cyfle i fynd ag Esther a Greta, plant Rhys a finna, yno un dydd er mwyn iddyn nhwtha hefyd brofi hud a hanes dinas enedigol eu hen nain. Bu farw Nain, neu Oma fel yr oedd Esther, ein merch hynaf, yn ei hadnabod, yn dawel yn ei chwsg ar gychwyn Adfent 2022. Yn gynharach y diwrnod hwnnw roedd hi wedi addurno’r tŷ o’r top i’r gwaelod a’r danteithion tymhorol yn hen barod.

Yn ystod yr un wythnos, fe wnaethon ni ddarganfod ein bod yn disgwyl ein hail blentyn, ac roedd galw ein merch fach yn Greta felly’n ddewis naturiol. Efallai fod canu carol mewn angladd, fel y gwnaethon ni wrth ffarwelio â Nain, yn beth anarferol i’w wneud, ond daeth canu geiriau Taid â llawer o gysur i ni fel teulu y diwrnod hwnnw. Yn yr un modd, mae canu’r garol yng Nghapel y Traeth, Cricieth, neu yn y Tabernacl yn ystod mis Rhagfyr yn dwyn atgofion cynnes, ac ambell ddeigryn. Dwi’n sicr y byddai Taid wrth ei fodd yn meddwl am ei ddwy orwyres fach wedi’u gwisgo fel angylion yn canu ei garol yn nrama Nadolig plant y Tabernacl y llynedd.

I berson a fagwyd yng nghyfnod erchyll y tridegau a’r pedwardegau yn yr Almaen, roedd hanes y geni gwyrthiol a bod goleuni yn trechu’r tywyllwch mwyaf yn sail cadarn i fywyd Nain. Ganwyd Iesu’n nyddiau Herod. Daeth Iesu i fyd yr unben, i fyd llawn creulondeb, i fyd sy’n anhygoel o debyg i’n byd ni heddiw. Ganwyd Iesu’n nyddiau Hitler a Putin hefyd. Ond i fyd o garedigrwydd mawr yn ogystal, byd rhoddion y bugeiliaid a’r doethion. Mae’r ddeuoliaeth yna’n parhau o oes i oes. Yn y geni gwyrthiol ym Methlehem gwelwn wyneb Iesu sy’n Frenin nef.

Edrychaf ymlaen at gyflwyno’r garol unwaith eto eleni i Esther a Greta, ein trysor ni, gan obeithio y gwnân nhwtha hefyd ddilyn eu hen neiniau a theidiau gan ganu ‘A thra rhodiom lwybrau daear / Iesu Grist fo’n brenin ni’.

# Dathlu’r Nadolig yn Eifionydd

Dyma dri llun o blant ysgolion Sul wedi iddynt gyflwyno’u gwasanaethau Nadolig. Os ydych am gynnwys eich lluniau chi yn *Cenn@d*, gofynnwn i chi eu hanfon atom cyn 30 Rhagfyr, er mwyn i ni eu cyhoeddi’n brydlon. Gofynnwn i chi hefyd sicrhau bod caniatâd wedi’i sicrhau i gyhoeddi’r lluniau.



Criw Ysgol Sul Pencaenewydd



Criw Ysgol Sul Chwilog



Criw Ysgol Sul Cricieth

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â’r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau swyddfa
post@panel.cymru panel.cymru
neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru